

Huw Irranca-Davies AC/AM
Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children, Older People and Social Care



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA - MA - L/HID/0673/18

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Lynne,

5 Tachwedd 2018

Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru): camau Cyfnod 2

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Hydref yn gofyn am gadarnhad ynghylch y gofynion cofrestru i'r rhai sy'n dymuno darparu gofal plant wedi'i gyllido o dan ddarpariaethau'r Bil hwn.

Diben y Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (2010) yw nodi disgwyliadau ynghylch yr hyn a gaiff ei ystyried (neu na chaiff ei ystyried) yn "*warchod plant*" neu'n "*ofal dydd i blant*" at ddibenion Rhan 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Nid yw'r Gorchymyn yn nodi p'un a all ysgol gofrestru i ddarparu gofal plant ai peidio. Mae'r Gorchymyn yn nodi, o dan Ran 3 14.–(1), '*nid yw person yn darparu gofal dydd pan ddarperir y gofal i blant mewn ysgol, a'r ddarpariaeth o ofal yn digwydd yn achlysurol mewn cysylltiad â darparu addysg*'. Diben y cymal hwn yw sicrhau nad oes yn rhaid i ysgolion gofrestru fel darparwyr gofal plant ar gyfer y gofal achlysurol a ddarperir ganddynt. Gallaf gadarnhau na fydd ein hadolygiad arfaethedig o Orchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (2010) yn ceisio newid y gofynion cofrestru i ysgolion sy'n dewis darparu gwasanaethau gofal plant. Nodir y rhain yn Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010. Nid oes gennym unrhyw gynlluniau i ddiwygio'r Rheoliadau hyn ar hyn o bryd.

Gofynnoch am gadarnhad ynghylch safbwynt Llywodraeth Cymru ar ofal plant gan nanis a gyllidir o dan y Bil hwn. Mae'r Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (2010) yn nodi, o dan Ran 5.–(1):

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

'Pan fo person sy'n cael ei gyflogi —

(a) (i) i ofalu am blentyn neu grŵp o sibliŋgiaid ar gyfer rhieni ("y rhieni cyntaf"), neu

(ii) i ofalu am ail blentyn neu grŵp o sibliŋgiaid ar gyfer rhieni ("yr ail rieni") yn ychwanegol at y plant y gofelir amdanynt ar gyfer y rhieni cyntaf, a

(b) yn gofalu am y plant o dan sylw yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng nghartref neu gartrefi'r rhieni cyntaf neu'r ail rieni, nid yw'n gweithredu fel gwarchodwr plant.'

Mae'r cymal hwn yn golygu nad yw nanis yn cael eu trin fel gwarchodwyr plant ac felly nid oes yn rhaid iddynt gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru er mwyn darparu gofal. Fodd bynnag, er mwyn darparu'r Cynnig, rhaid i ddarparwyr gofal plant gael eu rheoleiddio a'u harolygu gan AGC er mwyn sicrhau eu bod yn cadw at y Safonau Cenedlaethol Gofynnol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig. Felly, fel y mae eich llythyr yn cadarnhau, ni chaiff nanis ddarparu gofal plant a gyllidir drwy'r Cynnig ac nid ydym yn bwriadu newid hynny.

Yn gywir



Huw Irranca-Davies AC/AM

Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children, Older People and Social Care